

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 9 Mawrth 2022

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 15 MAWRTH 2022 am 10.00 am yn TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022 (copi'n amgaaedig).

**5 EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU - CAEL GWARED AR NWYDDAU NA ELLIR EU HAILGYLCHU YNG NGWASANAETHAU ARLWYO YSGOLION**  
(Tudalennau 15 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Arwel Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad (copi yn amgaeedig), sy'n argymhell bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol ddigonol i awdurdodau lleol i'w helpu i gael gwared ar ddefnyddio nwyddau na ellir eu hailgylchu a hwyluso mesurau lleihau carbon yng Ngwasanaethau Arlwyo Ysgolion.

**6 ADEILADAU'R FRENHINES CAM 1 – DYFARNU CONTRACT ADEILADU**  
(Tudalennau 33 - 58)

I ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) ynghylch ail gam y broses o ddyfarnu contract adeiladu i ddatblygu Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl, a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i'r contractwr a ffafrir drwy benderfyniad dirprwyedig.

**7 DYFARNU CONTRACT – ADNEWYDDU TAI TERAS YN 2 – 16 AQUARIUM STREET Y RHYL.** (Tudalennau 59 - 78)

Ystyried adroddiad (**sydd yn cynnwys atodiad cyfrinachol**) gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i benodi Prif Contractwr i adnewyddu tai teras yn 2-16 Aquarium Street, y Rhyl.

**8 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 79 - 82)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon**

**Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2022 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Cyfeiriad Strategol a Thrawsnewid; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Gwyneth Ellis, Hugh Irving, Alan James, Gwyneth Kensler, Barry Mellor, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), a Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau (AL); Arweinydd Rhaglen – Grant Cymorth Tai (CO); Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol (NJ); Rheolwr Busnes Rhanbarthol (CP); Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd (JH); Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd (LWJ); Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL); Rheolwr Prosiect (RV) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ & SJ [Gweddarllledwr])

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 7 ar y rhaglen -

Datganodd y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd, gysylltiad personol gan ei fod wedi gwerthu rhywfaint o stoc drwy un o'r asiantau eiddo/arwerthwyr sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori.

Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies gysylltiad personol gan y bydd yn gofyn i'r Tîm Newid Hinsawdd am gymorth i leihau carbon yn Ward Trefnant (Cefn Meiriadog).

### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022.

**Cywirdeb** – Tudalen 9 – Eitem 6 – Ymestyn Contract y Gwasanaethau Hamdden – esboniodd y Cynghorydd Meirick Davies fod ei bwynt yn ymwneud â'r difrod llifogydd i Fwyty a Theatr Pafiliwn y Rhyl mewn perthynas â'r amgylchiadau gyda'r tanc dŵr a fyrstiodd, ac a gafodd y tanc ei archwilio cyn ei drosglwyddo i Hamdden Sir Ddinbych Cyf neu beidio. Fel Aelod Arweiniol, cadarnhaodd y Cynghorydd Bobby Feeley y byddai'n rhoi ateb i'r Cynghorydd Davies yn uniongyrchol y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

## 5 STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gytuno ar y weledigaeth a sut i fynd i'r afael â digartrefedd a gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai yn y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai a'i chyhoeddi.

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Rhaglen Cymorth Tai 2022 – 2026, gydag adolygiad hanner ffordd drwyddi. Bydd angen i'r Strategaeth ar gyfer Rhaglen Cymorth Tai y Cyngor fod yr unig ddogfen strategol ar gymorth tai ac atal digartrefedd, ac mae wedi'i llunio i gyd-fynd â'r Strategaeth Tai a Digartrefedd bresennol sy'n cael ei monitro gan y Grŵp Tai Strategol a Digartrefedd. Wrth ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai, cynhaliwyd asesiad trylwyr o anghenion gydag amryw o randdeiliaid a darparwyd a chytunwyd ar saith blaenoriaeth, sydd ar y cyfan yn adlewyrchu'r camau gweithredu a geir yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Tai a Digartrefedd. Cafodd cynllun gweithredu drafft ei gynnwys i gefnogi'r modd y darperir y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai ond roedd angen amserlenni a chamau gweithredu ychwanegol mwy hirdymor cyn ei chyhoeddi.

Dywedodd y Cynghorydd fod y Strategaeth yn cynrychioli cam arall yn y cyfeiriad cywir i fynd i'r afael â digartrefedd a diolchodd i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth weithio tuag at fodel ailgartrefu cyflym.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro i gwestiynau fel a ganlyn –

- byddai angen creu fersiwn derfynol o'r cynllun gweithredu erbyn y bydd y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai yn cael ei lansio ddiwedd mis Mawrth. Er hyn, byddai'r cynllun yn hyblyg ac yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

- gwnaed llawer o gynnydd o ran sicrhau ymyrraeth brydlon, dulliau ymgysylltu a sicrhau mynediad at wasanaethau a gweithio gyda phartneriaid mewn ffordd gydlynol i gefnogi unigolion a theuluoedd fel y bo'n briodol.
- cafodd cydlynedd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ei gyflogi'n ddiweddar i helpu unigolion sydd wedi eu heffeithio gan y problemau hynny er mwyn cynnal eu tenantiaethau.
- roedd y Pwyllgor Craffu wedi trafod llawer o'r gwaith yn y Strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai ac fe dderbynion nhw hefyd adroddiad blynyddol am ddiartrefedd, ac roedd y Grŵp Tai Strategol a Diartrefedd hefyd yn ymwybodol o'r materion hynny; gan gofio'r amserlen dynn i gyhoeddi Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen.
- amlygwyd yr heriau mewn ardaloedd gwledig i ddarparu'r nifer o dai sydd eu hangen gyda'r ddarpariaeth yn Llangollen a Dinbych a darpariaeth gyfyngedig yn Rhuthun, ynghyd â llety ar brydles tymor byr, sy'n dibynnu ar gael tai cymdeithasol ac eiddo gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig - gwnaed pob ymdrech i gadw pobl sy'n datgan eu bod yn ddiartref mor agos â phosibl at eu cymunedau.
- cymerir camau i sefydlu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n mynd yn ddiartref ac roedd y ffocws a'r cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar atal: adlewyrchwyd hynny hefyd yn y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno gyda gweledigaeth a chyfeiriad strategol Sir Ddinbych a amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai ac y gellid cyhoeddi'r ddogfen.

## **6 GWAHODDIAD I DENDRO'R GWASANAETH CYMORTH ASESU COF RHANBARTHOL - DYFARNU CONTRACTAU**

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd at ddau atodiad cyfrinachol i'r adroddiad am resymau sensitifrwydd masnachol ac awgrymodd y dylid holi unrhyw gwestiynau manwl am yr elfennau hyn mewn sesiwn breifat.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu tri chontract ar ôl cwblhau Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Aseu Cof Rhanbarthol. [Roedd y Cabinet eisoes wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2021 y byddai'r Cyngor yn gweithredu fel y Comisiynydd Arweiniol ar gyfer Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y Gwasanaeth ar ran y Gwasanaeth Cydweithio Rhanbarthol (chwe awdurdod lleol a phartneriaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yng Ngogledd Cymru)].

Gallai cyfanswm gwerth y tri chontract wedi'u cyfuno â'i gilydd fod hyd at £3.36m (£672,000 y flwyddyn dros gyfnod posibl o 5 mlynedd). Rhoddwyd manylion am y broses dendro yn yr adroddiad, yn cynnwys nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r tair lot a gynigwyd fel rhan o'r Gwahoddiad i Dendro, ynghyd â gwerthusiad o'r cyflwyniadau tendro a'r dyfarniadau contract a argymhellwyd yn erbyn pob lot. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid allanol ar gyfer costau'r gweithgaredd rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn -

- (a) cymeradwyo derbyn y tendrau a gyflwynwyd gan y tri chyflenwr a gwrthod y tendr a gyflwynwyd gan un cyflenwr am y rhesymau y manylir amdany'n nhw yn yr 'Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Contract' (Atodiad 1 i'r adroddiad), a
- (b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

## **7 CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) AT DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL**

Cyflwynodd y Cyngorwyr Brian Jones, Tony Thomas a Julian Thompson-Hill adroddiad ar y cyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynllun newydd o ddulliau dirprwyo penderfyniadau er mwyn caffael tir ar gyfer dal a storio carbon ac at ddibenion gwelliannau ecolegol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo yn y bôn yn hwyluso'r broses o gaffael tir er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei Ddatganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol a'r targedau yn ei Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 - 2029/30). Cyfeiriwyd at y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a wnaed a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r dulliau cyfathrebu agored gyda chymunedau a rhanddeiliaid yn parhau yn y dyfodol. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw fwriad i brynu tir amaethyddol o safon uchel. O ran cyllid, roedd rhan o'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer rhaglen waith y targed di-garbon net ar gyfer y math hwn o bryniant tir a byddai angen cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau unigol dros £1m. Amlygwyd hefyd y mesurau diogelu sy'n ymwneud â'r broses o lunio penderfyniadau, gyda matrices sgorio eglur ar gyfer asesu tir a chyfranogiad helaeth yr aelodau etholedig a'r swyddogion yn y broses honno.

Amlygodd yr Arweinydd y materion sensitif sy'n gysylltiedig â chaffael tir er mwyn gwrthbwyso allyriadau carbon a'r effaith ar gymunedau gwledig yn genedlaethol. Er hyn, cyfeiriai'r adroddiad at gynigion i ddiwygio'r broses ddirprwyo'n unig ac roedd yn eglur yn y broses asesu safleoedd na chaffaelir tir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd. Cafodd hefyd gadarnhad ynghylch yr ymgynghoriad parhaus wrth symud ymlaen.

Wrth ystyried yr adroddiad, canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol -

- yn unol â pholisi gwaredu tir y Cyngor, ymgynghorwyd â gwasanaethau mewnol er mwyn canfod a oedd unrhyw ddefnydd ar gyfer y tir cyn y ceir gwared ag ef, ac roedd hyn hefyd yn cynnwys pa mor addas yw'r tir at ddibenion amgylcheddol.
- byddai gwell mynediad at dir i ymwelwyr yn ystyriaeth allweddol
- mae digon o adnoddau ar gael ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad ar gyfer cynnal a chadw tir ac mae yna fecanwaith drwy Fwrdd y Gyllideb i wneud cais yn flynyddol am gyllid cyfalaf a chyllid refeniw pe bai angen mwy o



adnoddau i reoli dulliau caffael tir yn y dyfodol a byddai hynny'n ystyriaeth wrth symud ymlaen.

- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau cymaint â phosibl o'i allyriadau carbon ac mae ystod o dargedau wedi eu gosod i'r perwyl hwnnw, sy'n cynnwys adeiladau a fflyd; mae caffael tir ar gyfer dal a storio carbon yn ffordd arall i gyfrannu at y broses honno a gwrthbwysu allyriadau na ellir cael gwared arny'n nhw.
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth am gwmnïau preifat yn prynu tir ffermio yng Nghymru ar gyfer plannu coed er mwyn gwrthbwysu'u hallyriadau carbon eu hunain, sy'n fater emosïynol ac yn broblem benodol yng nghanolbarth/De Cymru.
- wrth ymateb i bryderon a godwyd gan y Cyngorydd Gwyneth Ellis a natur ddadleuol y mater, derbyniodd yr Arweinydd ei fod yn fater sensitif ond rhoddwyd sicrwydd ynghylch y meini prawf ar gyfer caffael tir (nad oedd yn cynnwys tir amaethyddol/tir cynhyrchu bwyd) a bod y dull yn rhan o raglen o fesurau lleihau carbon a fyddai'n cyfrannu at raglen amgylcheddol y Cyngor.
- esboniwyd y sgôr cynaliadwyedd (31 / 36) yn yr Asesiad o Effaith ar Les, gan ei fod yn fesur eang a'i fod yn cynnwys integreiddio gyda gweithgareddau eraill a gweithio mewn partneriaeth a'i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor
- roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau ei bod yn effeithiol a'r aelodau arweiniol oedd y penderfynwyr allweddol ac felly gellid bod yn sicr ei fod yn benderfyniad gwleidyddol i'r aelodau ei lunio
- darparwyd gwybodaeth reolaidd am gyflawniadau lleihau carbon y Cyngor a byddai'r Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolol yn parhau yn y Cyngor newydd, gyda gwahoddiad agored i'r holl aelodau.
- mae digon o adnoddau yn y Tîm Newid Hinsawdd ar hyn o bryd a byddai llawer o'u rôl yn canolbwyntio ar gydlynw a chynllunio a chydweithio gyda staff ar draws y Cyngor i hyrwyddo a rhoi'r rhaglen ar waith, ond efallai y bydd angen adolygu'r sefyllfa wrth i'r Strategaeth fynd yn ei blaen.

#### ***PENDERFYNWYD*** y byddai'r Cabinet yn -

- cymeradwyo cyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol/lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolol fel y cynigiwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*
- chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **8 ADEILADAU'R FRENHINES, Y RHYL - CAIS AM GYLLID YCHWANEGOL**

Cyn cyflwyno'r adroddiad, mynegodd yr Arweinydd ei siom fod un o Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud datganiad yn y wasg a allai ddifetha enw da'r Cyngor, y prosiect a thref Y Rhyl er mwyn gwella'i sefyllfa ei hun. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn awdurdod agored, tryloyw ac mae cyfle bob amser i aelodau gwestiynu a chraffu y tu hwnt i'r Cabinet. Mae wedi cymryd blynyddoedd o waith caled i fagu hyder ymhlith trigolion Y Rhyl a buddsoddwyr posibl er mwyn helpu i newid delwedd Y Rhyl ac nid oedd y wybodaeth anghywir yn y wasg wedi helpu gyda hynny. Os oedd yr aelod yn bresennol, awgrymwyd y dylai wrando ar y drafodaeth, darllen yr adroddiad a nodi ffeithiau'r sefyllfa. [Yn ystod y drafodaeth,

lleisiodd aelodau eraill eu barn ar y mater a chanolbwyntiodd yr Arweinydd ar yr adroddiad a'r argymhelliad yn y drafodaeth.]

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad ar y cyd â'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill ynghylch diweddaru'r Cabinet am Brosiect Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl gan ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes wedi'i ddiweddaru a chyllid ychwanegol i gyflawni Cam 1 y prosiect.

Roedd y prosiect yn hanfodol ar gyfer gwaith adfywio tref Y Rhyl a llwyddiant economaidd yr ardal yn y dyfodol a byddai'n ffurfio dolen gyswllt ddefnyddiol wrth gysylltu buddsoddiad ar y promenâd a'r cynigion drwy'r cais i Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer gwelliannau ar y stryd fawr. Yn ogystal â hyn, amlygwyd llwyddiant rhaglen adfywio ehangach y Cyngor gyda phartneriaid, ac roedd y prosiect yn rhan allweddol o'r rhaglen waith honno er mwyn darparu mannau masnachu a swyddi yn y dref a chamau yn y dyfodol i ddarparu cartrefi newydd a chyflogaeth bellach. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y prosiect ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r datblygiad. Amlinellwyd yr elfennau ariannol a'r rhesymeg sy'n gefndir i'r cynnydd yng nghostau'r prosiect yn yr adroddiad ac fe'u trafodwyd ymhellach yn y cyfarfod, ac roedd hynny oherwydd ffactorau a oedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac na ellid eu rhagweld, a oedd yn cynnwys codi lefel llawr gorffenedig yr adeilad er mwyn cwrdd ag amodau cynllunio a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â deunyddiau adeiladu a gwaith dymchwel/cael gwared ag asbestos. Er bod yr holl ddulliau ariannu posibl yn cael eu hymchwilio er mwyn ymdrin â'r diffyg ariannol i gyflawni Cam 1, ar hyn o bryd byddai angen i'r Cyngor ariannu'r swm llawn sydd ei angen. Nodwyd y byddai methu â chwblhau'r prosiect yn debygol o olygu y byddai rhan sylweddol o'r grant yn cael ei gymryd yn ôl.

Cafodd y Cabinet drafodaeth hir am yr adroddiad a mynegwyd cefnogaeth fel a ganlyn -

- Credai'r Cynghorydd Brian Jones mai parhau â'r prosiect fyddai'r peth iawn i'w wneud ar gyfer Y Rhyl ac roedd yn falch o weld cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a photensial am gyllid Codi'r Gwastad y byddai'r ardal yn elwa ohono; cyfeiriodd hefyd at waith caled yr Aelodau Arweiniol a'r swyddogion ar y prosiect.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn siomedig fod y costau wedi cynyddu ond roedd yn cydnabod y cynnydd byd-eang mewn costau adeiladu; roedd yn derbyn bod angen adfywio tref Y Rhyl a soniodd am y gwelliannau a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf a thalodd deyrnged hefyd i rôl Hamdden Sir Ddinbych Cyf o ran hynny.
- Roedd y Cynghorydd Mark Young yn sicr na ellid rhagweld y cynnydd yn y costau, gan ddweud bod cost deunyddiau adeiladu wedi codi rhwng 23% a 78%, a nododd y byddai'n fwy cost effeithiol i fwrw ymlaen â'r prosiect nes bydd wedi ei gwblhau, yn hytrach na cholli'r buddsoddiad. Canmolodd y swyddogion am y gwaith a wnaed ac roedd yn edrych ymlaen at gyflawni'r cynllun. Wrth ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Young ynghylch a oedd y cyllid ychwanegol y gofynnwyd amdano yn ddigonol, dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod y swm yn cynrychioli asesiad teg yn seiliedig ar y dybiaeth orau ar y pryd.

- Tynnodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts hefyd sylw at y cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu a oedd wedi effeithio ar nifer o brosiectau ysgolion a chanmolodd waith y Cyngor a'i ymroddiad i adfywio tref Y Rhyl, gan gyfeirio at brosiectau allweddol a ffocws ar fuddsoddi yn y stryd fawr. Roedd yn gwbl gefnogol i'r argymhelliad, gan nodi y byddai'r prosiect yn creu swyddi a chreu safon byw well ar gyfer trigolion Y Rhyl.
- Talodd y Cyngorydd Richard Mainon deyrnged i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith i fwrw ymlaen â'r prosiect, sy'n rhan allweddol o waith ailddatblygu tref Y Rhyl a fyddai'n cysylltu'r promenâd a chanol y dref, a byddai'n ganolog er mwyn creu dyheadau a chyfleoedd yn y dref. Amlygodd y gwaith caled a wnaed ar y prosiect gyda rheolaeth dda dros y costau ac roedd yn gwbl gefnogol i'r cynllun.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau gan aelodau nad oeddent ar y Cabinet.

Fe wnaeth Aelodau'r Rhyl, y Cyngorwyr Joan Butterfield, Alan James a Barry Mellor fanteisio ar y cyfle i bwysleisio bod Prosiect Adeiladau'r Frenhines yn ganolog i waith adfywio tref Y Rhyl, gan ddiolch i'r Cyngor am flaenoriaethu'r rhaglen adfywio a arweiniodd at welliannau sylweddol ar y promenâd ac mewn ardaloedd eraill yn y dref ac roedd trigolion Y Rhyl wedi eu gwerthfawrogi'n fawr. Byddai'r prosiect yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad gyda buddiannau economaidd sylweddol ar gyfer Y Rhyl a'r ardal ehangach. Cydnabuwyd a gwerthfawrogwyd cefnogaeth y Cabinet a'r holl gynghorwyr ar draws yr awdurdod yn yr ymdrechion adfywio hynny, yn ogystal â chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru.

Fel cynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar Fwrdd Prosiect Adeiladau'r Frenhines, cadarnhaodd y Cyngorydd Hugh Irving ei fod yn hapus gyda'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd a bu'n cadw llygad barcud arni, ac o safbwynt craffu nid oedd ganddo unrhyw broblem gydag unrhyw gamau gweithredu hyd yma. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Meirick Davies, esboniodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill fod y cais i Gronfa Codi'r Gwastad yn cynnwys elfen ar gyfer gwella Adeiladau'r Frenhines er mwyn gwella'r ymddangosiad gweledol megis gwaith tirlunio.

Fe wnaeth y Prif Weithredwr gydnabod pa mor ddiolchgar oedd yr aelodau i'r swyddogion am eu cefnogaeth, yn enwedig wrth ymwneud â phrosiectau anodd, ac roedd yn falch iawn o'r gwaith adfywio sy'n cael ei wneud yn Y Rhyl. Estynnodd wahoddiad agored i'r holl aelodau drafod y ffordd yr ymdrinnir â gwaith adfywio yn Y Rhyl a chyfeiriodd at brosiectau eraill sydd yn y broses o gael eu cynllunio neu eu datblygu, ynghyd â gwaith i fynd i'r afael ag amddifadedd yn y dref.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r achos busnes wedi'i ddiweddarau ac y dylid neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect fel y manylir yn adrannau 6 a 9 yr adroddiad.

Ar y pwynt hwn (11.50 am) cafwyd egwyl fer.

## 9 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf

2022/23 yn ôl argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Aeth y Cynghorydd Thompson-Hill â'r aelodau drwy'r adroddiad gan esbonio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus. Cyfeiriwyd at waith y GBS o ran adolygu'r ceisiadau am ddyraniadau a rhoddwyd crynodeb o'u hargymhellion ac fe'u trafodwyd ymhellach yn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys y ffynhonnell ariannu a argymhellir ar gyfer pob prosiect, ynghyd â'r rhesymeg dros gefnogi'r prosiectau a'r dyraniadau penodol hynny.

Ar wahân i hynny, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at gyhoeddiadau diweddar am gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a oedd yn datgan y byddai gwaith yn parhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y ffrydiau incwm hynny ac y byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet yn y dyfodol wedi hynny, ar ôl yr etholiadau.

Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion yn yr adroddiad. Cafwyd ychydig o drafodaeth am y dyraniadau cyllid ar gyfer gwaith isadeiledd a gwaith atgyweirio arall yn ymwneud â phontydd ac, yn dilyn arolwg o gyflwr pontydd, nodwyd bod dyraniad cyllid penodol a chynllun deng mlynedd wedi ei lunio ar y gwaith sydd angen ei wneud. Gan gofio bod yr arolwg gwreiddiol wedi ei wneud chwe blynedd yn ôl, teimlai'r Cynghorydd Brian Jones y byddai'n werth adolygu'r gwaith hwnnw er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ddiweddaraf yn diogelu yn erbyn problemau yn y dyfodol ac fel y gellir blaenoriaethu gwaith fel y bo'n briodol, yn enwedig yn sgil effaith a cholled Pont Llannerch. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Thompson-Hill drosglwyddo'r neges honno yn ôl i'r swyddogion.

**PENDERFYNWYD** bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2022/23 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb referniw net ar gyfer 2021/22 oedd £216.818 miliwn (£208.302 miliwn yn 2020/21).
- rhagwelir y bydd gorwariant o £1.553 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt sydd werth £2.666 miliwn yn ymwneud â ffioedd a chostau, arbedion gweithredol, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau ac ysgolion.
- tynnwyd sylw at y risgiau a'r tybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, cyllidebau corfforaethol ac ysgolion ynghyd ag effaith y coronafeirws a'r sefyllfa o ran ceisiadau ariannol i Lywodraeth Cymru, a
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Referniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Soniodd y Pennaeth Cyllid am ffrydiau cyllido eraill a fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol a fyddai'n effeithio'n gadarnhaol ar y sefyllfa ariannol. Oherwydd amseriad cyfarfod nesaf y Cabinet ym mis Mawrth ni fydd adroddiad ariannol yn cael ei gyflwyno ond bydd crynodeb o'r datblygiadau ariannol dros y misoedd nesaf yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad sefyllfa derfynol i'r Cabinet a bydd aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Gofynnodd y Cyngorydd Mark Young am sicrwydd ynghylch cyflwyno ad-daliad prydlon o'r £150,000 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer bandiau A i D treth y cyngor a'r rhai a fydd yn derbyn cynlluniau gostyngiadau treth y cyngor. Dywedodd y Pennaeth Cyllid, unwaith y byddai manylion y cynllun yn hysbys, cymerir camau i hwyluso'r modd y caiff ei weithredu cyn gynted â phosibl ac amlinellodd y trefniadau tebygol i'r perwyl hwnnw. Byddai'r aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r sefyllfa ddatblygu.
- Soniodd y Cyngorydd Brian Jones am lwyddiant Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Dwyrain Y Rhyl a gafodd ei gwblhau'n gynt ac yn rhatach na'r disgwyl, gan ddiogelu 1600 o gartrefi a busnesau rhag llifogydd arfordirol. Cyfeiriodd hefyd at £700,000-£750,000 ychwanegol ar gyfer gwariant priffyrdd yn y flwyddyn ariannol bresennol a chadarnhawyd y disgwylir cadarnhad am y swm gan Lywodraeth Cymru ac oherwydd yr oedi wrth ryddhau cyllid yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'n debygol y bydd y cyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan ddefnyddio cyllideb y Cyngor a gafodd ei dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- wrth ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Bobby Feeley, soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau am y taliad cadw o £1000 ar gyfer pobl sydd wedi eu cofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol a fydd hefyd yn elwa o'r cyflog byw gwirioneddol o fis Ebrill ymlaen. Llywodraeth Cymru a fydd yn gwneud y taliad ond yr awdurdod lleol a fydd yn hwyluso'r broses i dalu staff cymwys.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Meirick Davies, adroddodd yr Arweinydd am gynlluniau i ddefnyddio hen safle Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn y dyfodol ac mae trafodaethau'n parhau gyda grŵp cymunedol lleol i'r perwyl hwnnw, cytunodd hefyd y byddai'n canfod a yw perchnogaeth y tir wedi ei throsglwyddo o'r Esgobaeth i'r Cyngor. O ran incwm cynllunio, cadarnhaodd y Cyngorydd Mark Young fod gweithgarwch wedi prysuro a bod swyddogion yn cydweithio er mwyn cynyddu incwm a sicrhau bod y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD** y bydd y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- cynhelir y cyfarfod nesaf a drefnwyd yn gynharach ar 15 Mawrth er mwyn iddo gael ei gynnal cyn y cyfnod cyn yr etholiad a fydd yn dechrau ar 18 Mawrth
- Fframwaith Ymgynghoriaeth Gogledd Cymru - mae'r eitem wedi ei haildrefnu o fis Mawrth i fis Gorffennaf
- Eitemau o'r Pwyllgorau Craffu: Cael Gwared â Nwyddau na ellir eu Hailgylchu yn y Gwasanaethau Arlwyio mewn Ysgolion - mis Mawrth

***PENDERFYNWYD*** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>15 Mawrth 2022</b>
<b>Cadeirydd y Pwyllgor Craffu</b>	<b>Y Cyngorydd Arwel Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Rhian Evans, Cydlynnydd Craffu</b>
<b>Teitl</b>	<b>Dileu Deunyddiau nad oes modd eu Hailgylchu o Wasanaethau Arlwyo Ysgolion</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Y nod o ddileu defnyddio deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion, gyda'r bwriad o gefnogi uchelgais y Cyngor o fod yn Ddi-garbon ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cyflwyno argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad i'r Cabinet.
- 2.2 Gofyn i'r Cabinet roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol ddigonol i awdurdodau lleol, i'w helpu i ddileu defnydd deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu, a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion, heb gyfaddawdu eu gallu i ddarparu gwasanaeth prydau ysgol hyfyw a chynaliadwy.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt -

- 3.1 weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymgais i leihau a dileu'r arfer o ddefnyddio plastigion untro a deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu wrth gyflenwi, paratoi a gweini prydau ysgol, a

- 3.2 darparu adnoddau ariannol digonol i bob awdurdod lleol i'w galluogi i wireddu'r amcanion uchod, a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion, gan sicrhau darpariaeth gwasanaeth prydu ysgol cynaliadwy.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

- 4.1 Mewn ymateb i Rybudd o Gynnig, penderfynodd y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2018 i gefnogi'r egwyddor bod yr Awdurdod yn lleihau ei ddefnydd o blastigion. Gyda'r bwriad o ddatblygu'r amcan hwn, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen aelodau. Adroddodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ac yn ei dro, a gyflwynodd ei argymhellion i'r Cyngor Sir ym mis Ionawr 2020.
- 4.2 Ar 28 Ionawr, 2020, cymeradwyodd y Cyngor Sir argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ar leihau defnydd plastigion yn swyddfeydd y Cyngor. Fe gefnogodd gais y Grŵp Tasg a Gorffen hefyd i barhau ei waith am 12 mis arall, gyda'r bwriad o ddatblygu cynigion ar gyfer camau gweithredu pellach i leihau defnydd y Cyngor o blastigion ym meysydd arlwyo ysgolion a chaffael.
- 4.3 O fewn wythnosau o wneud y penderfyniad uchod, datganwyd pandemig Covid-19, a chaewyd ysgolion am gyfnod estynedig ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion. Yn ystod y cyfnodau clo, ac ar ôl ailagor yr ysgolion, gofynnwyd i'r Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion roi mesurau diogelwch bwyd ychwanegol ar waith, er mwyn lleihau'r risg o haint wrth weini bwyd i ddisgyblion y sir. Yn anffodus, dim ond drwy ddefnyddio cynwysyddion plastig untro oedd modd cyflawni hyn. Daeth yn eglur yn y pendraw nad oedd modd i'r Grŵp Tasg a Gorffen gyflawni ail gam ei waith o fewn y terfyn amser a roddwyd. Cytunodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Rhagfyr 2020, a'r Cyngor Sir ar 23 Chwefror 2021 y byddai:

*"...unrhyw waith yn y dyfodol ar osgoi a lleihau plastigion yng Nghyngor Sir Ddinbych... yn cael ei gydlynu dan y Strategaeth arfaethedig ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol..."*

### Sefyllfa Bresennol

- 4.4 Gydag ysgolion wedi ailgydio mewn rhyw fath o normalrwydd, gofynnodd y Gweithgor Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i'r Pwyllgor Craffu archwilio a oedd Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion y Cyngor yn dangos cynnydd o ran lleihau ei ôl troed carbon a gostwng ei ddefnydd, a'i ddibyniaeth ar blastigion untro.



- 4.5 O ganlyniad, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2022 ar 'Leihau plastigion untro a gostwng carbon o fewn y Gwasanaeth Prydau Ysgol'. Mae copi o'r adroddiad hwnnw ynghlwm fel Atodiad 1 er gwybodaeth.
- 4.6 Gofynnodd cynrychiolwyr o Ysgol Dinas Brân, Llangollen i annerch y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod uchod, a gofyn cwestiynau ynglŷn â'r pwnc. Mae Ysgol Dinas Brân wedi dangos llawer o ddiddordeb mewn newid hinsawdd a materion amgylcheddol dros nifer o flynyddoedd, ac wedi cyflwyno mesurau arloesol i geisio mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ei hun.
- 4.7 Roedd cynrychiolwyr yr ysgol wedi cyfrannu'n weithredol i'r drafodaeth, ac roedd aelodau'n gwerthfawrogi eu mewnbwn a'u hangerdd dros y pwnc dan sylw. Ynghlwm yn Atodiad 2 mae cofnod drafft o'r drafodaeth. O ddarllen y cofnodion drafft neu wyllo gweddarllediad o'r cyfarfod, mae dyfnder teimlad ac angerdd dros y pwnc yn amlwg, yn ogystal â'r angen am gamau gweithredu brys i fynd i'r afael â'r mater.
- 4.8 Yn ystod y drafodaeth, nododd aelodau'r Pwyllgor Craffu'r heriau sy'n cael eu hwynebu o ran cydbwysu anghenion y Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion a'r ddarpariaeth prydau ysgol, yn erbyn blaenoriaethau hinsawdd ac ecoleg, heb sôn am y goblygiadau ariannol, a'r newidiadau gofynnol i ymddygiad ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau hynny. Mae'r peilot a gynhaliwyd yn Ysgol Glan Clwyd (gweler paragraffau 4.3 i 4.7 Atodiad 1) yn dangos yr heriau hyn yn glir.
- 4.9 Ar ôl ystyried y pwysau ychwanegol fydd y gofyniad newydd i gynnig pryd ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd o fis Medi 2023 ymlaen yn ei gael ar awdurdodau lleol, ynghyd â'r ymrwymiad cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd, roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai'r Cyngor roi pwysau ar Lywodraeth Cymru fel eu bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i drin y materion hyn a darparu'r cyllid angenrheidiol i wneud newid sylweddol, yn benodol o wybod yr heriau sydd eisoes yn wynebu llywodraeth leol, a'r pwysau ar ysgolion a meysydd gwasanaeth eraill. Ac o ganlyniad cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cabinet.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cefnogi cyflawniad blaenoriaeth corfforaethol amgylcheddol y Cyngor. Byddai'n cael effaith gadarnhaol ar uchelgais y Cyngor i fod yn Ddi-garbon ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau'n gysylltiedig â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r gost, a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y Cyngor yn peidio gyda'u harfer bresennol o werthu diodydd mewn ysgolion a gweithredu ymarferion 'ecogyfeillgar' eraill wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (gweler Atodiad1).

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid yw hyn yn berthnasol ar y cam hwn, gan fod yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet yn unig ar gyfer egwyddor o wasanaeth prydu ysgol ariannol ac ecolegol, ac i ysgrifennu i LIC i geisio cyllid digonol i'w helpu, ynghyd ag awdurdodau eraill, i wireddu'r uchelgais hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ganlyniad uniongyrchol i drafodaethau ac ystyriaethau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad mewn perthynas â 'Lleihau plastigion untro a gostwng carbon y Gwasanaeth Prydu Ysgol' a chyfraniadau cynrychiolwyr sy'n ddisgyblion yn Ysgol Dinas Brân, Llangollen i'r drafodaeth honno.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Cefnogir yn llwyr y dull a argymhellir, o roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol ddigonol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo gyda dileu'r defnydd o ddeunyddiau nad oes modd eu hailgylchu, a hwyluso mesurau gostwng carbon o fewn Gwasanaethau Arlwy Ysgolion. Bydd angen i unrhyw oblygiadau ychwanegol i'r gyllideb ar gyfer CSDd fynd drwy'r broses gyllido flynyddol y cytunwyd arni.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ariannol y dyfodol a chynnydd posib i ôl troed carbon y Gwasanaeth Arlwy Ysgolion yn sgil ymestyniad y cynnig prydau ysgol am ddim i blant ysgolion cynradd wedi'i amlinellu ym mharagraff 10 yr adroddiad sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

10.2. Gall diffyg cyllid digonol i ddiwallu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gofynion deddfwriaethol newydd, ac i gefnogi'r Gwasanaeth i ddarparu prydau ysgol a diodydd mewn cynwysyddion nad ydynt yn dafladwy, ac y gellir eu haildefnyddio rwystro'r Cyngor rhag dod yn Ddi-garbon ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, a all ddifrodi ei enw da.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adrannau 7.4.2(d), 7.20 a 7.21 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	<b>27 Ionawr 2022</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	<b>Y Cyng Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Y Cyng Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol</b>
<b>Awdur yr adroddiad</b>	<b>Hayley Jones, Prif Reolwr Arlwyo a Glanhau</b>
<b>Teitl</b>	<b>Lleihau'r defnydd o blastigau untro a gostwng carbon yn y Gwasanaeth Prydau Ysgol</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cynnydd/heriau o ran lleihau plastig untro a charbon yn y gwasanaeth Arlwyo Ysgolion yn unol â nod y Cyngor i fod yn gyngor digarbon net erbyn 2030.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r cynnydd a'r heriau mewn perthynas â lleihau plastig untro a gostwng carbon o fewn y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Fod Aelodau yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth fel sy'n briodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Y model busnes presennol ar gyfer y Gwasanaeth Arlwyo

- 4.1 Mae'r model busnes presennol ar gyfer Arlwyo Ysgolion yn Sir Ddinbych yn dibynnu ar yr incwm a gaiff ei greu o werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd. Mae'r incwm blynyddol (net) a gaiff ei greu o werthu diodydd ar gyfartaledd tua £220,000.
- 4.2 Caiff diodydd eu gwerthu'n gyffredinol mewn cynwysyddion plastig untro, er bod caniau a diodydd pecynnau tetra hefyd ar gael. Mae bron i tua 500,000 o ddiodydd ar gyfartaledd yn cael eu gwerthu bob blwyddyn, sy'n amlwg yn creu llawer o blastig untro. Mae yna ddwy brif ffordd y gellir diddymu'r arfer o werthu diodydd mewn cynwysyddion untro:
- 4.2.1 Drwy beidio â gwerthu diodydd yn ein hysgolion, gyda disgyblion yn dod â'u diodydd eu hunain i'r ysgol, gan arwain at bwysau o ran cyllid o tua £220,000 ar gyfer y Gwasanaeth; neu
- 4.2.2 Drwy werthu diodydd sy'n cael eu harllwys i gynwysyddion y gellir eu hail ddefnyddio (yn unol â'r cynllun prawf, a drafodir isod).

### Lleihau plastig untro: cynllun prawf yn Ysgol Glan Clwyd (YGC)

- 4.3 Fe dreialwyd dull newydd o werthu diodydd mewn cwpanau y gellir eu hail ddefnyddio gan y Gwasanaeth a hynny yn YGC o 1 Medi 2021 i 22 Rhagfyr 2021. Rhoddodd y gwasanaeth y gorau i werthu diodydd mewn poteli plastig untro yn ystod y cyfnod prawf.
- 4.4 Fe ostyngodd yr incwm net o werthu diodydd yn YGC o tua £506 yr wythnos (tua £20,000 pro rata) yn ystod y cyfnod prawf, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Fe allwn gymryd felly y gallai cyflwyno'r system hon yn yr holl ysgolion uwchradd (pe bai hyn yn bosibl) arwain at golled incwm net o tua £129,000 y flwyddyn.
- 4.5 Er mwyn cynnal y prawf fe brynodd YGC 1,000 o gwpanau diod y gellir eu hail ddefnyddio. Gan nad oedd cwpanau yn cael eu dychwelyd, fe brynodd YGC 1,000 o gwpanau eraill ym mis Hydref 2021. Roedd cyfanswm y gost i'r ysgol yn £2,160, gyda dim ond 250 o'r 2,000 o gwpanau ar ôl ar ddiwedd y cyfnod prawf 14 wythnos.

Byddai amcangyfrifiad cost y cwpanau y gellir eu hailddefnyddio (pe byddai'r system hon yn cael ei chyflwyno yn yr holl ysgolion uwchradd) yn tua £37,000 y flwyddyn.

- 4.6 Yn fwy na hynny roedd y cyfnod prawf yn gofyn am gynnydd mewn staffio o 1.5 awr y diwrnod i arllwys a gosod diodydd yn barod ar gyfer y gwasanaeth amser cinio. Fe ddaeth hyn ar gost o tua £1,652 ar gyfer y cyfnod prawf a byddai'n gyfystyr â thua £30,000 y flwyddyn ar draws yr holl ysgolion uwchradd.
- 4.7 Mae'r gwasanaeth wedi dod i'r casgliad na ellir cyflwyno'r cynllun prawf ar hyn o bryd ar draws yr holl ysgolion uwchradd. Mae'n rhy heriol yn logistaidd i'w weithredu, nid oes gan rai ysgolion ofod arwyneb digonol i osod y peiriannau diodydd a ddefnyddiwyd yn y cynllun prawf (yr oedd angen bwydo dŵr iddynt); mae'n creu swm sylweddol o wastraff yn nhermau cwpanau plastig nad oes modd eu hailgylchu; ac nid yw'n hyfyw yn ariannol (o ystyried y model busnes presennol). Cyfanswm y gost a ragwelir o gyflwyno'r model hwn ar draws yr holl ysgolion uwchradd yw tua £197,000 y flwyddyn.

### **Y cynnydd a wnaed mewn lleihau plastig untro**

- 4.8 Mae'r gwasanaeth Arlwygo wedi adolygu'r holl eitemau bwyd sydd angen cael eu pecynnu ac wedi lleihau'r cyfanswm o becynnau a gaiff eu prynu a'u gwaredu.
- 4.9 Mae'r gwasanaeth wedi rhoi'r gorau i brynu lletemau plastig untro ar gyfer brechdanau a photiau sawsiau ac wedi symud at gynwysyddion brechdanau a phasta o gardbord. Mae yna gynnydd mewn pris ar gyfer yr eitemau hyn ac mae'r gwasanaeth yn parhau yn bryderus nad yw eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu hailgylchu gan fyfyrwyr. Mae yna ostyngiad wedi bod ym maint ac argaeledd napcynau, a gostyngiad mewn pecynnu eitemau bwyd ymlaen llaw. Mae yna ymdrech i chwilio am ddewis arall i salad a salad ffrwythau nad yw'n costio'n ddrud i ddisgyblion.
- 4.10 Lle bo hynny'n bosibl fe roddwyd y gorau i ddefnyddio cyllyll a ffyrc plastig, ond nid yw hyn bob tro'n bosibl gan fod disgyblion yn cymryd cyllyll a ffyrc dur gwrthstaen sy'n ddrutach o'r ardaloedd bwyta ac yn eu gwaredu mewn amryw o ffyrdd.
- 4.11 Mae'r gwasanaeth yn gweini bwyd ar blatiau pryd bynnag fo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae'r gwasanaeth yn gweini dewis eang o fwyd a diodydd i 550 o ddisgyblion yn ystod amser cinio sy'n para 30 i 50 munud. Ni ellir

disgwyl i ddisgyblion eistedd mewn ystafell fwyta gyda phlât a chyllell a fforc gan nad oes gan nifer o ysgolion gapasiti ystafell fwyta.

## **Lleihau carbon yn y Gwasanaeth Arlwyo**

4.12 Mae'r gwasanaeth wedi bod yn edrych ar sut y gall gyflawni'r swyddogaeth arlwyo mewn dull carbon isel er mwyn cyfrannu at uchelgais y Cyngor o ran carbon.

Ymhlith rhai o'r pethau mae'r Gwasanaeth Arlwyo eisoes wedi eu gwneud mae:

- Sicrhau fod ceginau yn effeithlon o ran ynni: rydym yn parhau i edrych ar effeithlonrwydd offer pan fo angen offer newydd yn lle'r offer presennol ac mae staff wedi cael cyfarwyddyd i roi offer ymlaen pan fo angen ei ddefnyddio yn unig
- Caffael: mae milltiroedd bwyd wedi gostwng drwy dderbyn archebion yn wythnosol, a bob pythefnos pan fo'n bosibl.
- Caiff yr holl ddeunydd y mae modd ei ailgylchu (gan gynnwys bwyd) a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn y broses o gynhyrchu prydau ysgol ei ailgylchu.
- Model y gwasanaeth: yn gyffredinol caiff prydau eu cynhyrchu o fewn pob ysgol, gyda dim ond dwy ysgol ar hyn o bryd yn derbyn prydau a gludir yn ddyddiol o gegin ganolog.

4.13 Fodd bynnag, mae yna faterion pellach i'w hystyried. Daeth ymchwil, a gâi ei arwain gan Brifysgol Caeredin, i'r casgliad mai'r rhain ddylai'r blaenoriaethau fod i reolwyr arlwyo sy'n awyddus i leihau allyriadau carbon: a) troi at ddulliau gwaredu gwastraff carbon isel; a b) lleihau'r cyfanswm o gig coch ar fwydlenni.

4.14 Mae angen gwella ailgylchu gan ddisgyblion, ac mae angen gwahanu gwastraff bwyd a pheynnau cinio er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei drin yn y dull sydd fwyaf manteisiol o ran carbon. Mae angen ymagwedd ysgol gyfan, gan na all y gwasanaeth arlwyo gyflawni hyn ar eu pen eu hunain. Mae cyllid wedi ei sicrhau gan y Rhaglen Carbon Sero Net ar gyfer Swyddog Lleihau Carbon: Gwastraff (0.4 cyfystyr â llawn amser o 1 Ebrill 2022). Fe fydd y swydd yn annog newid mewn ymddygiad yn "fewnol" i gynyddu dargyfeiriad gwastraff a lleihau gwastraff ac un o'r blaenoriaethau fydd i weithio gyda'r Gwasanaeth arlwyo ac ysgolion.

4.15 Mae lleihau'r cyfanswm o gig coch ar fwydlenni yn debygol o fod yn fater sensitif, o ystyried y gymuned amaethyddol sylweddol yn y sir. Mae dyddiau di gig wedi eu



cyflwyno mewn awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, ond mae hyn wedi arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae hyn yn cyfrannu at nod y Cyngor i leihau plastig untro a dod yn gyngor di-garbon net erbyn 2030.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Byddai rhoi'r gorau i werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd yn costio tua £220,000 y flwyddyn. Byddai gwerthu/arllwys diodydd i gwpanau y gellir eu hail ddefnyddio yn costio tua £197,000 y flwyddyn. Byddai angen ymdrin â'r diffyg hwn drwy gynyddu cymhorthdal referiw CSDd; cynyddu prisiau prydau ysgol; neu drwy drosglwyddo'r costau i ysgolion. Byddai unrhyw ddiwygiadau pellach i'n strategaeth gaffael e.e. i fynnu fod nwyddau'n cael eu cyflenwi drwy ddefnyddio Cerbydau Allyriad Isel lawn, yn debygol o ddod gyda chost ychwanegol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Les wedi ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer hyn, gan na cheisir penderfyniad ar hyn o bryd.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae rhai trafodaethau wedi eu cynnal gydag ysgolion yn ymwneud â'r mater o roi'r gorau i werthu diodydd mewn cynwysyddion untro a'r goblygiadau o ran cost o wneud hynny. Byddai angen ymgynghori pellach cyn y byddai unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac, fel y nodir yn 6.1, amcangyfrifiad o'r gost sy'n gysylltiedig â lleihau plastig untro a lleihau carbon o fewn Gwasanaeth Arlwyo'r Ysgol.
- 9.2. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys buddsoddiad ar gyfer y Prosiect Di-Garbon ac mae'n cydnabod y bydd angen i gyllidebau ariannol CSDd gyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor o ran yr hinsawdd ac ecoleg pan fo prosiectau ac ymyriadau'n cael eu datblygu a'u gweithredu. Er mwyn ymdrin ag unrhyw gostau cynyddol o ganlyniad i ymyriadau a nodir yn yr adroddiad hwn byddai angen cynnydd yng nghyllideb refeniw CSDd, cynnydd ym mhrisiau prydu ysgol; neu drwy drosglwyddo'r costau ymlaen i ysgolion.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. Fe fydd y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â darparu Prydu Ysgol Am Ddim i'r holl ddisgyblion cynradd yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth. Amcangyfrifir y bydd y nifer sy'n cymryd Prydu Ysgol am Ddim yn cynyddu o 48% i 77% mewn ysgolion cynradd. Bydd ehangu darpariaeth y gwasanaeth yn anochel yn cynyddu ôl-troed carbon y gwasanaeth arlwyo ysgolion.
- 10.2. Mae'r model busnes presennol ar gyfer y gwasanaeth arlwyo yn ymagwedd system gyfan, a chaiff pob ysgol eu trin yn gyfartal, waeth beth fo'u maint. Oni bai fod ysgol unigol yn dymuno cymryd ymagwedd wahanol (a'u bod yn barod i ariannu'r bwlch yn y gyllideb) fe fyddai angen i ni gadw model cyson ar draws holl ysgolion Sir Ddinbych. Nid yw'n eglur a oes gan ysgolion ddyhead cyson/ar y cyd i newid i fodel newydd.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

- 11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- 11.2. Mae adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi grymoedd Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

### Dyfyniad o gofnodion drafft y Pwyllgor Craffu Perfformiad gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022

#### 7 DEFNYDDIO LLAI O BLASTIGAU UNTRO A LLEIHOU CARBON YN Y GWASANAETH PRYDAU YSGOL

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, gan gynnwys y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, y cyntaf yn dal y portffolio ar gyfer y maes gwasanaeth dan sylw a'r ail yn dal y portffolio ar gyfer yr amgylchedd, ynghyd â'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Pen Rheolwr Arlwygo a Glanhau. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i ddau ddisgybl o Gyngor Myfyrwyr Ysgol Dinas Brân a fyddai'n cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau am y mater.

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad gan y Prif Reolwr Arlwygo a Glanhau, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed, a'r heriau a gododd, wrth fynd ati i leihau plastig untro a charbon yn y Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion, yn ogystal ag amcangyfrif o'r costau cysylltiedig. Wrth osod y cyd-destun dywedodd fod yr adroddiad yn seiliedig ar y ddarpariaeth gyfredol ac y byddai gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl blant mewn ysgolion cynradd yn cael effaith arwyddocaol ar y gwasanaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan gyfeirio at y materion a ganlyn –

- roedd dull ariannu cyfredol y gwasanaeth arlwygo ysgolion yn dibynnu ar incwm o werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd, a werthid mewn poteli plastig untro yn bennaf. Roedd y dewisiadau ar gyfer rhoi'r gorau i werthu diodydd mewn poteli plastig untro'n cynnwys (1) peidio â gwerthu unrhyw ddiodydd a bod y disgyblion yn dod â'u diodydd eu hunain i'r ysgol, a fyddai'n creu diffyg o £220,000, neu (2) gwerthu diodydd wedi'u tywallt i gynwysyddion y gellid eu haildefnyddio
- Arbrofwyd â dewis 2 yn Ysgol Glan Clwyd ond oherwydd y trafferthion a gafwyd a'r effaith ariannol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, daeth y gwasanaeth i'r casgliad na ellid rhoi'r dull ar waith yn yr holl ysgolion uwchradd oherwydd yr heriau ymarferol, prinder lle mewn rhai ysgolion a gwastraff ar ffurf cwpanau plastig na ellid eu hailgylchu; nid oedd yn ariannol ymarferol chwaith
- roedd y gwasanaeth wedi cael hwyl ar leihau plastig untro mewn meysydd eraill ac wedi lleihau swm y deunydd pecynnu bwyd a gâi ei brynu a'i daflu. Bu cynnydd, fodd bynnag, ym mhrisiau deunyddiau amgen y gellid eu hailgylchu ac roedd pryder nad oedd y myfyrwyr yn ailgylchu'r deunyddiau hynny. Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio cyllyll a ffyrac plastig lle bo modd a châi bwyd ei weini ar blatiau, ond roedd llawer o ysgolion heb ystafelloedd bwyta digon mawr i'r disgyblion
- camau gweithredu penodol y gwasanaeth wrth gyflawni'r swyddogaeth arlwygo heb ddefnyddio llawer o garbon, a heriau yn y dyfodol wrth wella cyfraddau ailgylchu ymysg disgyblion, swydd newydd i hyrwyddo newid ymddygiad, a thrafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael llai o gig coch ar fwydlenni, a oedd yn bwnc llosg.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts ymrwymiad y gwasanaeth i leihau plastig untro a charbon er gwaethaf yr heriau a gododd, a'r cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd. Cyfeiriodd eto at effaith ariannol drom y camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad - £220,000 y flwyddyn wrth roi'r gorau i werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd, a £197,000 y flwyddyn wrth werthu diodydd wedi'u tywallt i gwpanau y gellid eu hailddefnyddio. Byddai'n rhaid gwneud iawn am y diffyg hwn drwy gynyddu'r cymhorthdal refeniw, codi prisiau prydau ysgol neu drosglwyddo'r costau i'r ysgolion. Byddai darparu prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd hefyd yn cynyddu ôl troed carbon y gwasanaeth. Cadarnhawyd y câi pob ysgol ei thrin yn gyfartal o dan y dull ariannu presennol, ac oni ddymunai ysgol unigol fabwysiadu dull gwahanol (a gwneud iawn am unrhyw ddiffyg yn y gyllideb) byddai'r dull cyson hwnnw'n aros yn ei le.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Brian Jones at waith a wnaed yn y gorffennol gyda'r nod o leihau plastig untro a phwysleisiodd fod angen i gyllidebau ariannol fod yn gyson â'r blaenoriaethau newid hinsawdd, a bod angen dod o hyd i ffyrdd dyfeisgar o fynd i'r afael â'r problemau a godai. Croesawodd gyfranogiad y ddau fyfyrwr o Ysgol Dinas Brân a'r gwaith oedd yn mynd rhagddo ar y cyd ag ysgolion ac eraill wrth geisio dod o hyd i ddulliau dyfeisgar o symud cynlluniau rhag newid hinsawdd ymlaen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y myfyrwyr o Ysgol Dinas Brân i ofyn cwestiynau, a gan gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chaffael cynaliadwy fe holont pam nad oedd y gwasanaeth yn defnyddio pethau gwell na nwyddau plastig untro yn unol â'r Ddeddf, a faint o wastraff ychwanegol a gynhyrchwyd drwy ddarparu plastig untro wrth fodloni'r galw gan fyfyrwyr. Holodd y myfyrwyr hefyd ynghylch gwir gostau defnyddio plastig o gymharu â deunyddiau amgen ecogyfeillgar, a heriont y cyfeiriad ym mharagraff 10.2 o'r adroddiad ynglŷn ag awydd ysgolion i newid, ar sail ymrwymiad parhaus y Cynghorau Ysgol. Mewn ymateb bu i'r Aelodau Arweiniol a swyddogion –

- esbonio'r graddfeydd amser llym ar gyfer gweini prydau bwyd yn yr wyth ysgol uwchradd ynghyd â'r prinder lle a oedd yn cael effaith arwyddocaol ar y modd y darperid y gwasanaeth, gan hefyd geisio bodloni hoffterau'r disgyblion a sicrhau bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw
- ymhelaethu ynghylch y camau a gymerwyd i ddefnyddio llai o ddeunydd pecynnu plastig untro ar frechdanau a phasta, a'r heriau o ddefnyddio cyllyll a ffyrcc dur a phlatiau gan ystyried fod amser yn gyfyng a bod dim digon o le mewn rhai ysgolion, yn ogystal â'r ffaith nad oedd rhai disgyblion yn dychwelyd eu cyllyll a ffyrcc ar bob achlysur a bod hynny'n creu costau, a bod deunyddiau amgen fel bambw yn llai fforddiadwy i ddisgyblion
- amrywiau swm y gwastraff o un ysgol i'r llall, ac nid oedd rhai disgyblion yn ailgylchu unrhyw blastig untro; ni châi llestri ac ati eu dychwelyd bob tro ac weithiau roedd disgyblion yn eu taflu (ar y llawr ar brydiau), ac nid oedd hynny o fewn rheolaeth y gwasanaeth. Roedd angen addysgu disgyblion a newid ymddygiad yn hynny o beth er mwyn sicrhau y câi'r gwastraff a gynhyrchid wrth ddarparu'r gwasanaeth ei waredu yn y ffordd orau Sicrhawyd cyllid i ariannu swydd newydd i hyrwyddo newid ymddygiad a byddai gweithio â'r gwasanaeth arlwyo ac ysgolion yn cael blaenoriaeth

- esboniodd fod paragraff 10.2 yn cyfeirio at ansicrwydd a oedd gan ysgolion awydd cyson/ar y cyd i newid i ddull newydd, a gododd yn sgil trafodaeth gyffredinol mewn cyfarfod penaethiaid clwstwr ynglŷn â gwerthu diodydd. Roedd penaethiaid wedi mynegi pryderon ynglŷn â rhoi'r gorau i werthu sudd ffrwythau (gan ystyried y buddion iechyd) a defnyddio caniau yn lle plastig (gan ystyried nad oedd modd eu cau ar ôl eu hagor a bod damweiniau'n gallu digwydd â chaniau wedi rhwygo ar gae'r ysgol). Bu Ysgol Glan Clwyd yn awyddus i gynnal yr arbrawf gwerthu diodydd ond pan gyflwynwyd y drefn newydd ni ddymunai'r rhan helaeth o ddisgyblion gymryd rhan
- cydnabuwyd mai gwerthu diodydd mewn ysgolion oedd y broblem fwyaf i'r gwasanaeth o ran plastig untro, ac er mai'r ffordd symlaf o fynd i'r afael â hynny oedd rhoi'r gorau i werthu diodydd mewn ysgolion, byddai goblygiadau mawr yn deillio o gymryd y cam hwnnw, nid yn unig oherwydd y diffyg yn y gyllideb y byddai'n rhaid gwneud iawn amdano, ond hefyd yng nghyd-destun iechyd a ffactorau eraill sydd efallai'n anhysbys, ac roedd angen trafod y mater yn wleidyddol ac ymgynghori â'r holl ysgolion er mwyn dod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen
- wrth ehangu'r gwasanaeth er mwyn bodloni'r gofynion i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion cynradd byddai'n anorfod y byddai ôl troed carbon y gwasanaeth yn tyfu hefyd, ac roedd hynny'n her sylweddol.

Yn ystod trafodaeth drylwyr bu'r aelodau'n craffu ar yr adroddiad yn fanwl a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod amryw agweddau ar yr adroddiad â'r Aelodau Arweiniol a'r swyddogion. Rhoes y Cadeirydd ganiatâd hefyd i fyfyrwyr Ysgol Dinas Brân ac eraill nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor ofyn cwestiynau dilynol. Cydnabu'r Pwyllgor yr heriau wrth geisio cydbwysu anghenion y gwasanaeth a'r ddarpariaeth prydau ysgol â blaenoriaethau yng nghyd-destun yr hinsawdd a'r ecoleg, yn enwedig felly'r goblygiadau ariannol a'r angen i newid ymddygiad er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hynny.

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion canlynol –

- yn ddelfrydol dylid defnyddio cyllyll a ffyrc dur ond roedd cyfyngiadau ar ddarparu'r gwasanaeth oherwydd prinder lle, diffyg cyfleusterau a chadeiriau mewn ysgolion, ynghyd â hyd yr amser cinio a'r ffaith bod miloedd o gyllyll a ffyrc dur yn mynd ar goll bob blwyddyn, gan gynnwys rhai a daflwyd yn amhriodol; er y byddai modd defnyddio cyllyll a ffyrc bambw roedd y rheiny'n llawer drutach na rhai plastig gyda phob cyllell a fforc yn costio tua 10-15c yn fwy, a byddai'n rhaid trosglwyddo'r gost i'r cwsmeriaid
- roedd gobaith y gallai'r Cyngor wneud mwy yn y dyfodol wrth gydweithio ag ysgolion i wella ymddygiad, gyda'r nod o sicrhau y câi'r holl ddeunydd a gynhyrchid o brydau ysgol ei ailgylchu, ac er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sbwriel
- roedd dull ariannu'r gwasanaeth arlwyo'n seiliedig ar yr holl ysgolion gyda'i gilydd ac felly byddai newid y drefn mewn un ysgol yn cael effaith ariannol ar bob un o'r lleill; pe byddai un ysgol yn rhoi'r gorau i werthu diodydd, er enghraifft, byddai'n rhaid rhannu'r diffyg yn y gyllideb yn gyfartal ymysg yr holl ysgolion, ac felly byddai angen i'r holl ysgolion gytuno cyn cyflwyno dull o'r fath
- bu gobaith y byddai'r arbrawf gwerthu diodydd yn Ysgol Glan Clwyd yn llwyddo ac y byddai modd ei gyflwyno ymhob ysgol uwchradd, ond yn anffodus ni fu'r arbrawf yn llwyddiant ac fe greodd broblemau eraill

- rhoddwyd sicrwydd fod gan bob ysgol awydd i geisio mynd i'r afael â phlastig untro a lleihau carbon ac er bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd yn hynny o beth mewn meysydd fel pecynnu a gwaredu gwastraff, roedd yr heriau mewn ysgolion yn anodd eu goresgyn mewn gwirionedd, ac roedd hi'n anodd dod dros goblygiadau ariannol y newidiadau hynny
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r sefyllfa genedlaethol, gan ystyried fod newid hinsawdd yn bwnc byd-eang, a holwyd a ddylai'r Cyngor wneud cais i Lywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol ledled Cymru a darparu'r cyllid angenrheidiol i gyflwyno newid sylweddol, yn enwedig gan ystyried yr heriau ariannol yr oedd llywodraeth leol eisoes yn eu hwynebu a'r gwasgfeydd ar ysgolion a gwasanaethau eraill. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai cysylltu â Llywodraeth Cymru'n ffordd o symud y mater yn ei flaen.
- roedd y rhan helaeth o ysgolion yn gweini prydau bwyd i wahanol ddisgyblion ar adegau gwahanol, ac o ganlyniad i Covid-19 wedi defnyddio rhannau eraill o'r ysgol heblaw am y ffreutur, a oedd wedi bod yn her barhaus
- diystyrwyd cyflwyno blaendal ar gyfer cyllyll a ffyrç aildefnyddadwy a chynwysyddion diodydd, oherwydd y gwaith gweinyddol a fyddai'n deillio o hynny a'r perygl o draws-heintio
- nid oedd rhai ysgolion yn caniatáu caniau ac ni fyddai newid o gynwysyddion plastig untro i ganiau'n ddelfrydol beth bynnag, gan mai cynwysyddion untro oedd y rheiny hefyd; nid oedd codi arwyddion ac ati i nacáu taflu sbwriel yn atal y broblem o reidrwydd
- esboniwyd fod angen cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â bwyd a maeth, a bod diffyg cyfleusterau a phrinder lle i hunanweini bwyd ynghyd â pheryglon traws-heintio wrth ddefnyddio cynwysyddion aildefnyddadwy, a chadarnhawyd na fu unrhyw wahaniaeth yn yr incwm a gynhyrchwyd wrth werthu diod ar ôl rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffynhonnau dŵr yn yr ysgolion
- canfu gwaith ymchwil y dylai rheolwyr arlwygo sy'n ceisio lleihau allyriadau carbon fod yn ystyried mabwysiadu dulliau gwaredu gwastraff nad ydynt yn defnyddio llawer o garbon yn ogystal â gweini llai o gig coch - byddai'n rhaid cael trafodaeth wleidyddol am y cig gan y byddai hynny'n benderfyniad arwyddocaol i'r sir
- rhoddwyd sicrwydd y cymerwyd camau i leihau plastig untro a bod cynnydd wedi'i wneud, a chytunwyd y gallai newidiadau bach a graddol wneud gwahaniaeth mawr pe byddai pawb yn ymdrechu ar y cyd
- roedd dull ariannu cyfredol y gwasanaeth yn seiliedig ar y system yn ei chyfanrwydd ac yn trin pob ysgol yn gyfartal beth bynnag ei maint, a phe dymunai Ysgol Dinas Brân fabwysiadu dull gweithredu gwahanol a'i bod yn barod i wneud iawn am y diffyg yn y gyllideb, roedd gan yr ysgol hawl i wneud hynny a byddai'r Cyngor yn cynnig pob cymorth y gallai yn hynny o beth.

Siomwyd y Cynghorydd Graham Timms o glywed ymateb y Pwyllgor ynglŷn â gofyn i Lywodraeth Cymru arwain ar y mater, a dywedodd y dylai'r Cyngor fod yn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Holodd a wnaed unrhyw waith i ddatblygu a phennu costau gwasanaeth a fyddai'n cael gwared â phlastig untro ac yn lleihau carbon, wedi'i ariannu a'i weithredu gan y Cyngor, ynghyd â gwaith i addysgu plant ynglŷn â'r ymddygiad gorau. Rhybuddiodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts rhag llunio cynllun gwasanaeth am y tro, gan ystyried nad oedd hi'n hysbys beth fyddai goblygiadau'r gofyn i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion cynradd yn y dyfodol, ac roedd wedi nodi bod yr adroddiad yn ymdrin â'r sefyllfa fel yr oedd hi ac yn amodol ar elfennau ansicr yn y dyfodol fel ailstrwythuro posib a buddsoddiadau. Cydnabu

myfyrwyr Ysgol Dinas Brân hefyd y sefyllfa ariannol oedd ohoni, ond gan bwysleisio fod newid hinsawdd hefyd yn sefyllfa'r oedd angen mynd i'r afael â hi. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai argymhelliad y Pwyllgor i geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru gynnwys yr arbrawf gwerthu diodydd yn Ysgol Glan Clwyd fel enghraifft o'r anawsterau a wynebwyd, ac awgrymodd y gallai Ysgol Dinas Brân ddymuno cysylltu â Llywodraeth Cymru eu hunain er mwyn mynegi eu siom ynglŷn â phrinder cyllid i symud pethau yn eu blaenau.

Er nad oedd atebion yn bresennol ar gyfer datrys y problemau a godwyd, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod yno ymrwymiad i ddal ati. Gan ystyried y gofynion newydd i ddarparu prydau ysgol am ddim roedd angen i'r gwasanaeth roi blaenoriaeth i gyflawni'r gwaith hwnnw yn y deunaw mis nesaf, ac er y gallai gymryd mwy o amser na hynny i gyflawni nodau'r gwasanaeth i leihau carbon a phlastig untro, rhoddwyd sicrwydd fod pawb yn ymrwymo i ddatrys y broblem. Wrth ddod â'r drafodaeth i ben ailgyflwynodd y Cadeirydd ei gynnis, a eiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard, ac ar sail pleidlais bu i'r Pwyllgor –

***BENDERFYNU*** , yn amodol ar y sylwadau a phryderon uchod, i ofyn i'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Cyngor gan ofyn iddo –

- (a) *weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymdrech i leihau a rhoi terfyn ar ddefnyddio plastig untro a nwyddau na ellid eu hailgylchu wrth gyflenwi prydau ysgol, eu paratoi a'u gweini, a*
  
- (b) *darparu adnoddau ariannol digonol i'r holl awdurdodau lleol fel y gallant gyflawni'r amcanion uchod, hwyluso cynlluniau lleihau carbon yn y Gwasanaethau Arlwy Ysgolion tra'n sicrhau y gellid darparu gwasanaeth prydau ysgol cynaliadwy.*

Diolchodd y Cadeirydd i fyfyrwyr Ysgol Dinas Brân am eu cyfraniad a'u cwestiynau heriol, a hefyd i'r holl aelodau am eu cyfraniad hwythau i'r drafodaeth, yn enwedig felly'r Cynghorydd Graham Timms, ac i'r swyddogion am ddod â'r adroddiad gerbron y Pwyllgor ac ateb cwestiynau yn ei gylch.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Yn adrodd i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	15 Mawrth 2022
<b>Aelod Arweiniol/Swyddog</b>	Y Cyngorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol
<b>Cyngor ac</b>	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd y Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Russell Vaughan
<b>Teitl</b>	ADEILADAU'R FRENHINES CAM 1 – DYFARNU CONTRACT ADEILADUA

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yma'n ymwneud ag ail gam y broses o ddyfarnu contract i adeiladu datblygiad Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i Gontractwr a ffafrir drwy Benderfyniad Dirprwyedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i ddyfarnu Contract i adeiladu Cam I datblygiad Adeiladau'r Frenhines i'r Contract a ffafrir i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro ac Aelodau Arweiniol ar ddiwedd y cam dylunio manwl gan gymryd bod cynllun costau o fewn fforddiadwyedd y gwaith;
- 3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo gweithredu'r Penderfyniad Dirprwyedig ar unwaith oherwydd y brys i ddyfarnu Contract er mwyn galluogi i'r gwaith gychwyn ar y safle mor fuan â phosibl i gyrraedd dyddiadau cau cyllid grant; a

- 3.3. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Ym mis Mawrth 2019, caffaeledd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) nifer o adeiladau cyfagos yng nghanol tref y Rhyl, sy'n wynebu glan y môr, a elwir gyda'i gilydd yn Adeiladau'r Frenhines. Roedd yr adeiladau mewn cyflwr adfeiliedig, a'r lloriau uchaf ddim yn cael eu defnyddio (mae'r adeiladau ar lan y môr yn bedwar llawr) a gwagleoedd sylweddol ar y llawr gwaelod. Tuag at ddiwedd 2020, fe luniodd y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer datblygiad mewn camau, gyda defnydd cymysg ar y safle. Mae'r holl adeiladau heblaw am Siambrau'r Frenhines sy'n wynebu Heol Sussex bellach wedi cael eu dymchwel a rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer Cam 1 a chaniatâd amlinellol ar gyfer camau dilynol yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi 2021.
- 4.2 Ym mis Ebrill 2021, cymeradwyodd y Cabinet y strategaeth gaffael i gyflawni Cam 1 o ddatblygiad Adeiladau'r Frenhines. Roedd hyn er mwyn penodi contractwr ar broses dau gam drwy Lot 3 fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru. Wynne Construction oedd yn llwyddiannus yn y cam cyntaf a chawsant eu penodi i ddatblygu'r cynllun o fod wedi cael caniatâd cynllunio drwodd i ddylunio manwl i adeiladu. Yn fuan, fe fyddwn ni'n cyrraedd y cam pan fyddwn wedi derbyn Cynigion Contractwr a chytuno arnynt, ac mewn sefyllfa i roi'r contract adeiladu i Wynne Construction i gyflwyno Cam 1 y datblygiad.
- 4.3 Ar ôl sicrhau'r gyllideb sydd ei hangen i gyflawni Cam I y prosiect, mae camau terfynol y gwaith dylunio manwl yn cael eu cyflawni gan gynnwys paratoi CPau a manylion y contractau yn barod ar gyfer adeiladu, sydd i ddechrau yng nghanol / diwedd Ebrill. Gan y bydd dyfarnu'r contract adeiladu yn digwydd ar ôl cyfarfod olaf Cabinet y Cyngor hwn, mae angen cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract drwy Benderfyniad Dirprwyol er mwyn sicrhau bod terfynau amser tynn cyflawni'r prosiect yn cael eu diwallu. Mae angen cyflawni'r holl allbynnau a bod yr arian wedi'i dynnu i lawr erbyn 28 Chwefror 2023 neu bydd yn rhaid i ni ad-dalu dros £5.5m o gyllid grant a gafwyd neu y mae cynigion wedi'u cyflwyno ar eu cyfer eisoes.
- 4.4 Er mwyn sicrhau y gall y gwaith adeiladu gychwyn ar amser yn unol â'r dyddiadau cau a osodwyd gan y cyrff ariannu, mae angen i'r prif gontractwyr allu gosod archebion ymlaen llaw ar gyfer rhai eitemau sydd yn cymryd amser hir i gyrraedd. Mae'r rhain ar

gyfer gwaith dur, ac ar gyfer is-gontractwyr pyst arbenigol a gwaith tir. Bydd cost y rhain tua £500,000 a bydd angen i'r Cyngor warantu'r costau hyn nes bod contract ffurfiol yn ei le, a bydd hyn yn galluogi i'r rhaglen adeiladu bresennol gael ei chynnal.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu at ddarparu'r Flaenoriaeth Gorfforaethol i ddarparu amgylchedd deniadol ac wedi'i amddiffyn, sy'n cefnogi llesiant a ffyniant economaidd drwy;

- dynnu adeiladu rhannol adfeiledig yng nghanol y dref a dychwelyd defnydd i'r safle lle maent yn sefyll ar hyn o bryd;
- darparu eiddo a fydd yn galluogi arallgyfeirio defnydd cymysg yng nghanol y dref, gan roi dyfodol economaidd hyfyw a chynaliadwy iddo;
- rhoi cyfleoedd ar gyfer twf busnes a chyflogaeth newydd;
- darparu datblygiad o ansawdd a fydd yn ysgogi'r sector preifat i ymgymryd â rhagor o fuddsoddiad; a
- chynyddu bioamrywiaeth mewn lleoliad trefol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cost amcangyfrifedig presennol i gyflwyno Cam 1 yw 12,622,261, fel y nodir yn Atodiad 2 ond dylid nodi bod hyn hefyd yn cynnwys costau a fydd yn galluogi, ac yn lleihau costau i gyflawni camau dilynol. Mae hyn yn cynnwys eitemau megis caffael, cael gwared ag asbestos, dymchwel a gwaith tir ar gyfer y safle cyfan rydyn ni'n berchen arno, a chyflawni Cam 1.

Mae'r cyllid a gafwyd hyd yma o sawl ffynhonnell wedi'i ddangos yn y tabl isod:

<b>Ffynhonnell ariannu</b>	<b>Swm</b>
Cynllun Cyfalaf Sir Ddinbych	£4,900,000
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	£3,350,000
Llywodraeth Cymru - Arian Cyfatebol a Dargedir	£2,500,000
Llywodraeth Cymru – Cronfa Trawsnewid Trefi	£809,261
Llywodraeth Cymru - Grant Ysgogiad Economaidd	£811,000

Cyllideb Refeniw Asbestos Sir Ddinbych	£252,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£12,622,261</b>

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Prif gasgliadau'r asesiad yw y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r nodau lles, trwy ddarparu datblygiad carbon isel, sy'n gwbl hygyrch, a fydd yn gwella cyfathrebu a'r isadeiledd cludiant mewn lleoliad a fydd yn galluogi preswylwyr i gael gafael ar ystod ehangach o wasanaethau ar droed, neu drwy fynd ar feiciau. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi drwy wella bywiogrwydd canol y dref, a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau adeiladu a hamdden. Bydd yn gwella pa mor atyniadol yw'r ardal drwy gael gwared ag eiddo adfeiliedig a gwella diogelwch cymunedol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

**Briffio'r Cabinet** - mae sawl diweddariad wedi'i roi i Friffio'r Cabinet drwy gydol oes y prosiect, roedd y rhai mwyaf diweddaraf ar 7 Chwefror a 7 Mawrth 2022.

**Grŵp Rheoli Asedau** – Wedi cymeradwyo adroddiad i fwrw ymlaen gyda'r cytundeb amodol i brynu'r safle fesul cam.

**Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl** - wedi cefnogi'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor o ran caffael yr eiddo ar 19 Mawrth 2018. Cafwyd cefnogaeth bellach ganddynt yn eu cyfarfod ar 22/10/2018 a 08/04/2019. Cynhaliwyd cyfarfodydd WebEx arbennig ar 23 Mehefin a 6 Gorffennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynigion diweddaraf, y gwaith dymchwel a'r terfynau amser, ynghyd â chyfarfod arall a gynhaliwyd ym mis Medi 2020. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf wedi'i chyflwyno i'r Grŵp Ardal Aelodau ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2021, ynghyd â mis Chwefror 2022.

**Grŵp Buddsoddi Strategol** – Ymgynghorwyd â'r GBS ar y cynnig ar 30 Hydref 2018, ac fe wnaethant argymhell ei gymeradwyaeth i fwrw iddi, yn amodol ar sylwadau ac amodau a geir yn natganiad y Prif Swyddog Cyllid. Cynhaliwyd GBS arbennig ar 9 Medi 2020 ac maent yn cefnogi'r cynllun ar yr amod bod Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl hefyd yn ei gefnogi.

**Datblygiad Busnes ac Economaidd** – Ymgynghorwyd â nhw drwy gydol y trafodaethau ac maent yn gwbl gefnogol o'r pryniant. Dyma'r prif safle sydd ei angen er mwyn cyflwyno Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl a bydd y tîm yn parhau i fod yn rhan o'r broses i'w roi ar waith.

**Bwrdd Prosiect Adeiladau'r Frenhines** - sefydlwyd Bwrdd Prosiect newydd ym mis Ebrill 2021 i oruchwylio a symud ymlaen â datblygiad ar y safle. Ymhlith yr aelodau ceir cynrychiolaeth lefel uwch o Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru ac maent wedi cyfarfod yn fisol ers y cyfarfod cyntaf ar 14 Ebrill 2021.

**Cyrff ariannu**- mae swyddogion yn parhau i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru bob pythefnos ac maent wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy gydol y gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a rhoi hyder iddynt ac i geisio cyllid ychwanegol pan fo ar gael.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd mewn manau eraill, bydd unrhyw fethiant i gyflawni'r prosiect yma o fewn y terfynau amser diffiniedig yn debygol o gynnwys adfachu grantiau sylweddol. Mae hi hefyd yn amlwg y bydd y prosiect yn parhau i ddarparu buddion adfywio sylweddol a fydd yn arwain at ragor o fuddsoddiad gobeithio. Bydd yr ased sy'n deillio o'r prosiect hefyd yn parhau i fod yn eiddo i CSDd. Felly, cymeradwyodd y Cabinet Achos Busnes diwygiedig ar 15 Chwefror oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol. Bydd caffael contractwr ar gyfer y cam adeiladu yn helpu i sicrhau bod y prosiect allweddol hwn yn parhau ar y trywydd iawn a'i fod yn lleihau peryglon y prosiect i adfachu grantiau, ac felly mae'r holl argymhellion yn cael eu cefnogi.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risgiau allweddol yw:

10.2 Oni cheir penderfyniad i gymeradwyo Contract i'r Contractwr a ffafrir drwy Benderfyniad Dirprwyedig, yna ni ellir darparu'r prosiect fel y cynlluniwyd. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor Sir yn cyflawni'n allbynnau a gytunwyd gyda'r cynnig ar gyfer cyllid grant ac ni fyddai'r Cyngor Sir yn derbyn £3.350m o grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a glustnodwyd i'r prosiect. Mae risg hefyd y bydd rhywfaint neu'r holl gyllid a ddyrannwyd o ffrydiau cyllid eraill Llywodraeth Cymru yn cael eu hadfachu hefyd.

10.3 Os nad yw'r gost i'r prif gontractwr am osod archebion ar gyfer eitemau y mae disgwyl hir amdanynt yn cael ei warantu gan y Cyngor Sir, yna ni fyddai modd cyflawni'r deilliannau sydd eu hangen erbyn y terfynau amser a osodwyd gan y cyrff ariannu.

10.4 Os ceir cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhellion yng nghyfarfod heddiw, bydd hyn yn rhoi digon o amser i ni ddarparu'r cynllun a manteision cysylltiedig o fewn terfynau amser a osodwyd gan y cyrff ariannu.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972



## **Queen's Buildings Rhyl- Phase 1: Well-being Impact Assessment Report**

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

**Assessment Number:** 215

**Brief description:** Acquisition and redevelopment of land and buildings in Rhyl town centre to accommodate a mixed leisure and retail development

**Date Completed:** 31/01/2022 13:48:13 Version: 5

**Completed by:** Russell Vaughan

**Responsible Service:** Facilities, Assets & Housing

**Localities affected by the proposal:** Rhyl,

**Who will be affected by the proposal?** Existing tenants within the buildings acquired

**Was this impact assessment completed as a group?** No

## **Summary and Conclusion**

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

### **Score for the sustainability of the approach**

**3 out of 4 stars**

**Actual score : 33 / 36.**

### **Summary for each Sustainable Development principle**

#### **Long term**

This site has for decades been an eyesore in a very prominent area of the Town Centre, suffering years of neglect. All buildings have been demolished apart from the Queens Chambers on Sussex St which will be retained and refurbished as a key entrance from the high street into the development. Given the interest and memories of the site, a decision was made to keep the name of Queen's within the new development

#### **Prevention**

Developing a space that will contribute to the wider plans to reduce deprivation in Rhyl and promote regeneration. This is a key site in the objectives of the Town Centre masterplan and vision.

#### **Integration**

We are ensuring that there is a coordinated approach to the delivery of the corporate plan with the involvement of a variety of internal departments including Housing, EBD and Finance.

#### **Collaboration**

The Queens Buildings is a phased development which went through a pre-application consultation and Planning process. Phase 1 which we are currently delivering is being delivered by ourselves, with advise from NW Police, Biodiversity Officer etc., but the future phases will all need to be



delivered in collaboration with the College, NHS and Housing Association to name but a few.

## Involvement

The people most heavily involved in the development were those local businesses who were within the properties we purchased. We tried our best to support these businesses with whatever they felt was best, which actually cost us more time, effort and cost. This includes helping some smaller businesses set up from home, a few of them relocating together elsewhere in the town or ceasing trading all together.

## Summary of impact

Well-being Goals	Overall Impact
<a href="#">A prosperous Denbighshire</a>	Positive
<a href="#">A resilient Denbighshire</a>	Positive
<a href="#">A healthier Denbighshire</a>	Positive
<a href="#">A more equal Denbighshire</a>	Positive
<a href="#">A Denbighshire of cohesive communities</a>	Positive
<a href="#">A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language</a>	Positive
<a href="#">A globally responsible Denbighshire</a>	Positive

## Main conclusions

The main conclusions of the assessment are that the proposal will have a positive impact on all of the well being goals through the provision of a low carbon, fully accessible development which will improve communications and transport infrastructure in a location which will enable residents to access a

## Queen's Buildings Rhyl- Phase 1

wider range of services on foot or by cycling, it will have a positive impact on the economy by improving the vitality of the town centre and increasing awareness of employment opportunities in the construction and leisure sectors, and it will improve the attractiveness of the area by removing dereliction and improving community safety.

## **The likely impact on Denbighshire, Wales and the world.**

### **A prosperous Denbighshire**

#### **Overall Impact**

Positive

#### **Justification for impact**

The overall impact of the proposal is positive for the "prosperous Denbighshire" well being goal because poorly insulated buildings will be replaced with energy efficient new builds thereby contributing to a low carbon society, it will support economic development by increasing footfall in the town centre and as a consequence the viability of adjacent businesses, it will provide raise skill levels through the provision of work tasters in the growing construction and leisure sectors, and it will improve infrastructure by increasing WiFi coverage and will encourage the use of local transport links.

#### **Further actions required**

Aiming to try and utilise local contractors wherever possible. The project utilised Sell2Wales for the demolition phase and the North Wales Construction Partnership for the delivery of Phase 1.

#### **Positive impacts identified:**

##### **A low carbon society**

The proposal will contribute to a low carbon society by replacing poorly insulated buildings with solid wall construction with new energy efficient buildings constructed to the BREEAM Very Good standard.

##### **Quality communications, infrastructure and transport**

The proposal will improve communications infrastructure through the provision of Wi-Fi coverage by the tenant businesses to the open space which will be created in the development.

##### **Economic development**

The proposal will contribute to the vitality of Rhyl town centre by providing premises suited for occupation by businesses which will act as key attractors which will increase footfall and improve the viability of town centre businesses generally.

### **Quality skills for the long term**

The proposal will provide quality skills for the long term by offering work tasters during the demolition and construction phase and subsequently with the tenant businesses once they are in occupation in conjunction with Working Denbighshire.

### **Quality jobs for the long term**

The proposal will improve employment opportunities for the long term by providing accommodation for businesses operating in the leisure sector which is experiencing phenomenal growth locally.

### **Childcare**

[TEXT HERE]

### **Negative impacts identified:**

#### **A low carbon society**

The demolition and construction will inevitably lead to an increase in carbon use during the process

### **Quality communications, infrastructure and transport**

No parking will be including on the site as the team believe there is already ample parking and public transport in close proximity. This includes the 500 space Central car park, bus and train stations.

### **Economic development**

[TEXT HERE]

### **Quality skills for the long term**

[TEXT HERE]

### **Quality jobs for the long term**

[TEXT HERE]

### **Childcare**

[TEXT HERE]

### **A resilient Denbighshire**

#### **Overall Impact**

Positive

#### **Justification for impact**

The overall impact of the proposal for the "resilient Denbighshire" well being goal will be positive because biodiversity in the urban environment will be improved through the introduction of soft landscaping to a built up area, the waste generated by the site as a whole will be reduced by decreasing the density of development, and fuel consumption will be reduced by providing facilities which local residents will be able to access without having to travel out of county. The raising of the building will help protect it from potential future flooding by making it floor proof rather than flood resilient.

#### **Further actions required**

The potential negative impact arising from the greater use of vehicles fuelled by hydrocarbons can be mitigated by making provision for the future installation of charging points for electric vehicles in near-by car parks and encouraging the use of the good local public transport links.

#### **Positive impacts identified:**

##### **Biodiversity and the natural environment**

During the design of Phase 1, consideration will be given to include elements that could enhance the biodiversity such as swift boxes and the trees/landscaping we use.

### **Biodiversity in the built environment**

The proposal will improve biodiversity in the built environment by including soft landscaping in the public space in what has hitherto been a completely developed urban area.

### **Reducing waste, reusing and recycling**

The proposal will reduce the production of waste from the site through the construction of a replacement development with a reduced amount of floor space accommodating businesses which will generate less waste. Surplus materials that would usually be removed from site will be kept for the Phase 1 development.

